


Y Pwyllgor

gan D. T. Davies



E.P.C. New List of Plays & Dramas
IN ENGLISH AND WELSH.

HELYNT HEN AELWYD (neu HELBUL TAID
A NAIN). (*R. Williams.*) 2/- net, post free 2/3.

YR HEN GRYDD (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net.
post free 1/2.

THE VILLAGE WIZARD. (*Dr. Naunton Davies.*)
6d. net, post free 8d.

DEWIN Y PENTREF. (*Dr. Naunton Davies.*)
6d. net, post free 8d.

BEDDAU'R PROFFWYDI. (*Professor W. J.*
Gruffydd.) 2/- net, post free 2/3.

RUTH. (*Rev. J. J. Williams.*) 1/- net, post free 1/2.

ESTHER. (*Rev. J. J. Williams.*) 1/- net, post
free 1/2.

ASGRE LAN. (*R. G. Berry.*) 2/- net, post free 2/3.

AR Y GROESFFORDD. (*R. G. Berry.*) Lord
Howard de Walden Prize Drama. 2/- net, post free
2/3.

THE POACHER. (*J. O. Francis.*) 1/- net, post
free 1/2.

PONT OREWYN. (*T. E. Ellis.*) Death of Llewelyn
Olaf. 1/- net, post free 1/2.

Licences for Public Performance to be obtained from
The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.

Sapyaad m Jan
7/47

Y PWYLLGOR

E.P.C. Welsh Drama Series, No. 15.

Y PWYLLGOR

*Digrifawd mewn Un Olygfa
Yn Nhafodiaith Cwm Rhondda.*

Gan

D. T. DAVIES.

Awdur "Ble Ma Fa?" &c



CARDIFF :

THE EDUCATIONAL PUBLISHING CO., LTD.

CYMERIADAU.

Malachi Williams	}	Aelodau parchus yng Nghapel Pisgah.
Mari, ei wraig		
Jacob Evans		
Obadiah Griffiths		
Matthew Bifan		

Amser : Y Presennol—yr hwyr.

Y PWYLLGOR.

[Cymer y ddrama le yng nghegin MALACHI WILLIAMS. Gwelir lle tân ar y dde, a thwb yn hanner llawn o ddwr brwnt ar yr aelwyd. Ffetan ar y llawr o flaen y twb, rhyngddo a'r tân, a box sebon yn y golwg gerllaw; drws yn arwain i'r scullery tu cefn ar y dde, ffenestr yn y cefn, a drws-y-back i'r chwith iddi; drws yn arwain i'r "rwm-genol" yn y pared chwith.

Eistedd MALACHI, gwr dros drigain oed, garw a blewog, mewn llofrau "dwetydd" a chrys gwlanen, ar sciw yn y cefn, gan blygu i glymu careiau ei esgidiau. *Uniona yn sydyn gan rwbio ei gefn.*]

MALACHI : Mari, sychsoch chi ddim o nghefan-i yn hannar sych!

MARI (yn y "rwm-genol") : Chi a'ch hen gefan! Dewch, mwstrwch-hi, ne ewch chi ddim i'r pwyllgor heno.

MALACHI (yn tynnu yn rhy egniol gan dorri y garai) : Go, darro!

MARI : Nawr, Malachi, beth wetsoch-chi!

MALACHI (yn syllu yn ofidus ar y darn yn ei law) : Beth wetas-i, yn wir!

Y PWYLLGOR

MARI : Fe ddylsa fod cwiddyl arno-chi, dyn o'ch oetran chi, i reci felna.

MALACHI : Fe ddylsa fod cwiddyl arno-chitha i ddod â shwd lassis a hyn i'r ty. (*Yn gwneud cwblwm ar y garai.*) Welas-i shwt beth ariod, os bydd ast arno-i i fynd i rwla, wy-i mor wirad o dorri lissan ne golli bwtwn, a mod i'n ddyn.

MARI : Otych, otych, 'r'ych-chi mor wyllt. Torri lassis a cholli bwtwna wy-i yn ych cofio chi. Wn-i ar y ddaear ble ma'ch front chi.

MALACHI : *Front!* Pwy isha front sy heno? Dewch â'r grafat goch 'na yma.

MARI : Na chewch—crafat goch yn wir—a phob dyn decha arall yn gwishgo colar gwyn. Ble dotsoch-chi'r front 'na nos Sul?

MALACHI : Dyn a wyr. Ma rhyw hen wynt rhyfadd wedi mynd yndo chi oddiar ath Lisa Jane i'r college. Beth fydd raid i fi nithir nesa wn-i gwishgo cuffs i fynd i'r seiat falla? (*Yn torri carai eto.*) Wel, tawn i'n trico! Mari, os dim lissan letar yn y ty 'ma rwla?

MARI : Lissan letar yn ych sgitsha dwetydd, ys clwas-i shwt gownt! Tsa chi'n cal ych ffordd, fe wishgsach fel navy. Ma 'na ddwsan o lassis duon yn nror y ford.

(JACOB EVANS, *gwr tua'r un oed a MALACHI, yn agor "drews-y-back" ac yn gweithio ei ben i mewn.*)

Y PWYLLGOR

JACOB : Malachi, machgan annwl-i, 'dych-chi ddim yn meddwl dod i'r pwyllgor heno? Dewch, ma-hi'n mhell wedi'r amsar yn barod.

MARI : Dewch miwn, Jacob, dewch miwn, fe fydd Malachi yn barod nawr miwn hannar munad, (*Yn wawdlyd*) ar ol i fi lasso 'i scitsha fa.

(*Daw JACOB i mewn dan chwerthin.*)

MALACHI (*yn syllu ar esgidiau JACOB*) : Mari, lassis lletar sy gita Jacob.

(*Daw MARI i'r golwg gan gario cot, gwasgod, front a het MALACHI.*)

MARI : D'ôs gen-i ddim lissan letar yn y ty nawr. Cerwch o'r ffordd.

(*MARI yn gosod ei ddrillad ar gadair, gan ei wthio o'r neilltu, ac yna yn chwilio yn nror y ford; MALACHI yn eistedd ar y sciw; MARI yn dod o hyd i garai ddu ac yn plygu o flaen MALACHI gan blethu y garai yn ei esgid.*)

MARI : Jacob, oti'ch gwraig chi yn gorffod lasso'ch scitsha chi fel hyn?

JACOB (*yn eistedd mewn cadair freichiau wrth y tân*) : Oti, fe 'llwch fentro; fe gelswn-i fynd heb scitsha cyn y plygsa Sarah o mlan i felna.

MARI : Ma Malachi wastod ar ol, cwympto i gysgu lwchi ar ol cal bwyd, yn lle mynd i wmolch

Y PWYLLGOR

ar unwaith, a dyma fi a'r hen gecin yn sang-di-fang, hen dwbin brwnt ar yr aelwyd.

JACOB: Pitwch a wilia yn fach am y twbin, Mari; llestar o barch yw hwnna cofiwch. Ma 'na lawar i hen goliar yn wara'r delyn yn fendigetic yng ngogoniant heno, olchws 'i grôn du filodd o witha miwn twbin fel hwnna.

MARI (*yn gorffen clymu yr esgid*): Dyna. (*Yn codi.*) Nawr, y front, nesa. (MARI *yn cydio yn y front.* MALACHI *yn griddfan ac yn edrych ar JACOB.*)

MALACHI: Mwfflar sy am wddwg Jacob!

MARI: Ma brest Jacob yn wan. (*Yn ymgymeryd â gosod y front am wddf MALACHI; yntau yn crondagu.*) Sefwch yn llonydd, y dyn; beth sy arno-chi!

MALACHI: O'r arswd, ddaw hi ddim, ma-hi lawar rhy fach!

MARI: Rhy fach, dyma'r front fwya ôdd yn y shop—17½. Well i chi gal colar ceffyl. Dyna (*wedi llwyddo ar ol tipyn o drafferth i osod y front*), 'r ych chi'n dishgwyl rwpeth yn debyg i Gristion nawr.

MALACHI: Fe fysa'n well gen i ddishgwyl yn debyg i rwpeth arall, wath felny wy'i'n teimlo.

JACOB (*yn codi*): Ma'n well i ni fynd.

MARI: Dewch nawr, Malachi (*yn dal i fyny ei*

Y PWYLLGOR

got a'i wasgod iddo gyda'i gilydd,) mwstrwch, 'r ych-chi'n symud fel anglodd.

(MALACHI, *ar ol gosod ei fraich chwith yn y llawes yn aros yn sydyn â'i freichiau ar led, fel bwgan brain.*)

MALACHI (*yn ofidus*): Jacob, glwsoch-chi a'n mynd?

JACOB: Clwad beth?

MARI: Beth sy'n bod nawr? Y nefoedd annwl, bwtwn arall eto!

MALACHI (*yn alarus, ar ol gosod ei law dde tu cefn, ac yn dangos bwtram ar gledr ei law*): Jacob Evans, 'r wy-i 'n gallu godda profedigitha mawr bywyd yn weddol iawn, ond ma rwpeth fel hyn yn strain ofnadw ar y ticyn crefydd sy gen i.

MARI: O'r mowradd, ôn-i 'n son am golar ceffyl, fe ddylsach wishgo arnas cyfan, a nid shwt o ddillad.

MALACHI: Dewch a'm strapon i 'ma.

MARI: Na chewch; fydda-i ddim wincad yn gwinio bwtwn arall.

JACOB: Pwy isha bwtwn arall sy? Dewch fel 'r ych-chi nawr. Fe naiff un bwtwn y tro am heno.

MALACHI: Gnaiff a! Dyna i gyd ych-chi'n wpod (*yn tynnu ei fraich o'r llawes, ac yn troi ei gefn ar JACOB*). 'D ych-chi ddim wedi gweld y galasis ffashiwn newydd 'ma? O bobpath dwl

Y PWYLLGOR

welas i ariod, sylwch ar y wheel fach yna, ma-hi fel sheave ingin windo. Os collwch chi un bwtwn ma'r un man i chi golli dou.

JACOB : Wel, dotwch y ddwy ddolan ar yr un bwtwn, dyna beth nelswn i.

MALACHI : Iefa ? Ma gita chi ffydd fawr yn Rhagluniath.

JACOB : Gwetwch chi beth fynnwch-chi, par o galasis pert yn-nhw.

MARI (*yn gwenio'r botwm*) : Presant pen-blwydd helws Lisa Jane iddo-fa o Aberystwyth.

MALACHI : Wfft shwt bresant weta-i.

JACOB : Falla nag ych-chi ddim wedi dod i ddeall y *wheels* bach 'na eto. Synnwn i damad nawr nad rai felna ma proffeswrs y coleg yn wisgho.

(*Ergyd ar "ddrws-y-back."* Ymddengys MATTHEW BIFAN, gwr o'r pump a deugain i'r hanner cant, cymharol drwsiadus, masnachwr llwyddiannus.)

MATTHEW : Shwt ych-chi 'ma heno ?

MARI (*yn gwenio yn brysur*) : Dewch miwn, Matthew, fydd Malachi ddim hannar munad cyn dod. (MATTHEW *yn dod mewn*. OBADIAH *yn ei ddilyn*), O, 'r ych-chi Obadiah 'na hefyd. Dewch miwn. dewch miwn.

(*Un o "Bohemians" anghydfurfiaeth ydyw OBADIAH, o dan ddeugain oed ; am gyfrif ei hun yn*

Y PWYLLGOR

"Llenor" ; *ei wallt braidd yn hir, a'i ddillad hytrach yn afler.*)

MATTHEW : 'D yw Mrs. Evans, Ty-capal, ddim wedi cynnu tamad o dân yn y vestry, na gola chwaith, ag on ni'n meddwl, os nag os gwaniath gita chi, y celsa-ni gynnal y pwyllgor yma.

MALACHI : Itha right, cymerwch gatar. Ish-teddwch Obadiah, dewch ymlan.

MARI : O ble galla-nhw ddod ymlan, a'r hen dwbin brwnt ar yr aelwyd.

JACOB : Pitwch chi gofitio dim am y twbin, Mari, fe ddota-i bobpath yn daclus i chi. Obadiah, cymerwch afal yn hwn gita fi. (JACOB *ac. OBADIAH yn dwyn allan y tneb ar y dde.*) Matthew, dewch chitha a'r ffetan a'r box sepon 'na mas. (MATTHEW *yn ufuddhau ac yn canlyn.*)

MARI (*dan chwerthin*) : Llaw futur yw Jacob, ontefa ? Dyna, os collwch chi'r bwtwn yna eto, fe'i gwinia fa â chordyn y tro nesa.

(*Y tri yn dod i mewn o'r "scullery."*)

MARI : Ishteddwch lawr am funad, fe gynna-i dân yn y rwm genol nawr.

MALACHI : Ia, ia, fe fyddwn yn fwy cysurus manny.

MATTHEW : Pwy isha i chi gynnu tân yn y rwm genol sy ? Fe fyddwn ni yn itha cysurus man hyn.

Y PWYLLGOR

JACOB : Wel byddwn, yn enw pob synnwyr. (*Yn tanio ei bibell.*) A pheth arall, 'dyw dyn ddim yn licio poeri yn y rwm genol.

MARI : Allwch-chi ddim bod yn y gecin, ne fydd gen i ddim un lle i fynd. Ble 'r af fi ?

JACOB : 'D ôs dim isha i chi fynd i unman. 'Rwy-i yn dymuno cynnyg yn ffurfiol fod Mrs. Williams yn aelod o'r pwyllgor yma i bartoi program ar gyfar eisteddfod fawreddog capal Pisgah.

OBADIAH : Clywch, clywch ; 'r wy'n dymuno eilio'r cynyciad. *Quite right (yn troi at MATTHEW), quite in order, co-opted member, chi'n gweld Mr. Bifan.*

MALACHI : Os yn-ni yn mynd i aros yn y gecin, a Mari yn yn plith ni, 'd ôs dim isha i chi chynnyg hi yn aelod o'r pwyllgor,—dyna fi yn roi rypudd teg i chi nawr.

JACOB : Wedi gynnyg a'i eilio, pob un sy dros y cynyciad ? (*Codi dwylaw unfrydol.*)

OBADIAH : Y peth nesa sy gita ni i nithir yw dewish cadeirydd. 'R wy'n dymuno cynnyg Jacob Evans.

JACOB : Ma gen-i welliant : 'r wy-i yn cynnyg fod gwr-y-ty, Malachi Williams, yn cymeryd y-gatar.

MATTHEW : 'R wy'n eilio'r cynyciad.

JACOB : Pob un o'r un farn ?—(*codi dwylaw unfrydol.*) Nawr dyma'r man gora i chi ishta (*yn*

Y PWYLLGOR

gosod cadair freichiau iddo tua chanol y barth). Fe af finna man hyn.

(*Cymer pob aelod o'r pwyllgor ei le yn awr, rhywbeth tebyg i hyn.* Eistedd MALACHI yn y canol, MARI ar ei law chwith, ac OBADIAH ar ei dde. Myga JACOB yn egniol ger y tân, tra yr erys MATTHEW ar yr ochr chwith, nid ymhell oddiwrth MARI. Wedi i MALACHI gymeryd y gadair, teyrnasa distawrwydd llethol am beth amser. Y mae y cadeirydd yn edrych ac yn teimlo yn anghysurus iawn. Try o'r diwedd at JACOB.)

MALACHI (*yn rhyw hanner sisial*) : Os raid i fi wed rwpeth nawr ?

JACOB : Wel, os, gair bach yn fyr fel rhagarweiniad i'r gwaith.

MALACHI : Hannar munad ta! (*Yn diosg y front, i'w fawr ollyngdod, ac yn ei thaflu dan y ford ; yna, ar ol cryn betruster, yn codi.*) Frotyr a chwiorydd, . . .

MARI (*yn crechwen*) : Ma Malachi yn mynd i gynnal gwasanath.

MALACHI (*yn ddigofus*) : Os ych-chi, Mari, yn mynd i wherthin ar ym mhen i, weta-i ddim gair arall.

MATTHEW : Galwch hi i gownt, Malachi, galwch hi i gownt ; chi yw'r cadeirydd. Ordor Mrs. Williams!

JACOB : Ordor Mari!

Y PWYLLGOR

MALACHI (*yn troi ati*) : Dyna fe! glywsoch chi! Ma'n raid i chi acto'n weddus miwn pwyllgor.

MARI : Gadewch ych hen foddar, da chi, a cherwch mlaen â'r gwaith.

MALACHI : 'R yn-ni wedi cwrdd
'r yn-ni wedi cwrdd yma heno ond yn-ni?

MARI : Oryn, oryn.

(MALACHI *yn eistedd yn ei gadair yn ffromllyd, gan edrych oddiamgylch yn erfyniol am gydymdeimlad.*)

MALACHI : Jacob, Matthew, dyna ddangos i chi faint o wara teg wy-i 'n gal yn y ty ma.

MARI : Malachi, ngariad annwl-i, ôn-i'n meddwl dim drwg, trio'ch helpu chi ôn i.

MATTHEW : Ia, ia, Malachi, trio'ch helpu chi ôdd hi. Dewch nawr, pitwch a pwti. 'Dyw Mrs. Williams ddim wedi arfadd bod mewn pwyllgor, ond ar ol iddi ddod yn fwy cyfarwydd, fe all fod o help mawr i ni. (*Yn troi at MARI*) Chi'n gweld, Mrs. Williams, os byddwch chi yn cydweld â'r hyn ma'r sharatwr yn wêd, raid i chi waeddu "Clywch, clywch"—ma hynny yn g'londid mawr iddo-fa.

MARI (*yn ddiriwed iawn*) : O, 'r wy'n gweld.

MATTHEW : Dewch mlan, Malachi, dechreuwch eto.

MALACHI (*yn codi*) : Wel, 'r ych chi gyd yn gwpod nag wy-i ddim llawar o sharatwr.

Y PWYLLGOR

MARI : Clywch, clywch!

MALACHI : Dyna chi 'to!

MATTHEW : Ond ych helpu chi ma-hi ; cerwch mlan, wr.

MALACHI : Fel gwetas i, 'wy-i ddim llawar o sharatwr, ond ma ngalon-i yn y gwaith. 'R wy wedi bod gita chrefydd nawr ers dros ddeugain mlynadd

MARI : Pwyllgor 'steddfod ne seiat-brofiad sy 'ma, gwetwch?

OBADIAH : *Chair, chair.*

MATTHEW : Ordor, ordor.

JACOB : Ordor, Mari.

MALACHI (*yn gadael MARI yn ddisylw*) :
A a 'rwy wedi talu'r shop yn gyson pob pythewnos drw'r blynydda . . .
a . . . a . . . a os pariff y tywydd fel hyn, fe ddylsan gal steddfod hyfryd.

Y GWYR : Clywch, clywch. (*Curo dweylaw.*)

MALACHI : Ond . . . ond, i fynd ymlan . . .
ia . . . a . . . i fynd ymlan . . . ia . . . (*yn troi yn sydyn at JACOB*), Jacob Evans, 'r ych chi'n gwpod beth i wêd yn well na fi, a chitha'n cyoeddi bob Sul—dewch nawr, gair bach yn fyr.

(MALACHI *yn eistedd*. JACOB *yn codi yn araf a phweysig.*)

JACOB : Gyfeillion, ar ol sylwata tarawiadol y cadeirydd 'dos gen i fawr i wêd. Fel ych chi

Y PWYLLGOR

gyd yn gwpod, fe benderfynws eclws Pisgah, fishodd yn ol, i gynnal 'steddfod dydd Calan nesa.

MARI : Naddo, phenderfynws yr eclws ddim shwt beth.

MATTHEW : Wel, os na phenderfynws yr eclws, fe fuws sharad ymhlith y brotyr.

MARI : Do, dair wthnos i bora Sul dwetha yn y cwrdd brotyr buws son gynta am 'steddfod, ontefa Malachi ?

MALACHI (*yn anghysurus*) : Beth ych-chi'n gofyn i fi!

JACOB : Ta pun, wedi i gapal Salam, perthynol i enwad parchus arall—

OBADIAH : Parchus yn wir!

MARI : Ma nhw lawn mor barchus a ni.

MALACHI : Ordor, Mari.

JACOB : Wedi i gapal Salam glwad beth ôn-ni'n feddwl nithir, am ryw reswm ne gilydd, fe benderfynson fynd yn grôs i ni.

MARI : Dyna gelwdd.

OBADIAH : *Chair, chair.*

MATTHEW : Ordor, ordor.

JACOB (*yn gynhyrfus*) : Malachi . . . Mr. Cadeirydd, glwsoch-chi? Os nag yw Mari yn tynnu 'i gira nol ar unwaith dyma fi yn ymddiswyddo o'r pwyllgor, a mwy na hynny, fe af fi a'i hachos hi o flaen y seiat,—ma gen i ddicon o witnesson.

Y PWYLLGOR

MALACHI (*yn codi*) : Nawr, Mari, tynnwch ych geira nol, gwnewch *apology* ar unwaith.

MARI : O'n wir, a phwy ych-chi'n wilia, Malachi? Pology a finna'n gwpod gwell!

OBADIAH : Ond chi'n gweld, Mrs. Williams, hyd yn nod os byddwch chi'n gwpod nag yw dyn ddim yn gwêd y gwir, ôs gita chi ddim hawl i wêd, pan fyddwch chi miwn pwyllgor, i fod a'n gwêd celwdd.

MARI : O—h wel, dyna waniath nawr. Wyddwn i ddim o hynny. O'r gora, er mwyn mynd ymlan, 'r wy'n folon tynnu'r gair 'celwdd' yn ol, ond . . . ôdd Jacob ddim yn gwêd y gwir.

MATTHEW : Cerwch mlan Jacob.

JACOB (*yn ffyrnig*) : Do, fe benderfynson fynd yn grôs i ni, fe benderfynson gynnal 'steddfod yn Salam ar yr un dwarnod a ninna.

OBADIAH } C'wilydd, c'wilydd!
MATTHEW }

MALACHI : Ia, c'wilydd mawr hefyd.

JACOB : Nawr, 'dwy-i ddim am wêd dim byd yn gas, "Parhaed brawdgarwch" weta i.

Y BRODYR : Ia, ia.

JACOB : Ond 'r'yn-ni gyd yn gwpod shwt dacla sy yn eclws Salam.

Y BRODYR : Clywch, clywch!

MARI : 'D yn-nhw damad gwath na thacla

Y PWYLLGOR

eclws Pisgah, ond falla 'u bod nhw dicyn yn fwy *cute*.

JACOB : 'D yn-ni ddim yn mynd i ffraeo â aelota Salam.

Y BRODYR : Nagyn, nagyn.

JACOB : Ma'n well i ni gymryd popath yn dawal, miwn ysbryd cariad.

Y BRODYR : Oti, oti ; itha right.

JACOB : Ond 'r un pryd, 'dos dim isha i ni ildo iddyn nhw!

Y BRODYR : Nagos.

JACOB : 'Dos dim isha i ni fynd o dan 'u trad nhw!

Y BRODYR : Nagos, nagos.

JACOB : C'uwch cwd a ffetan, myn brain-i!

Y BRODYR : Clywch, clywch.

JACOB : 'Ryn-ni wedi cwrdd ma heno i nithir program. Fe gaiff y program fynd at y printar fory, fe fydd yn barod idd 'i ddsbarthu dydd Sul, ac os bydd aelota Salam o'r wynab i gynnal 'steddfod 'r un dwarnod a ni, ar ol i ni ddod a'n program mas o'u blan nhw, wel—'dwy-i ddim am weld un o honyn nhw byth, yn y byd yma na'r byd a ddaw.

Y BRODYR : Clywch, clywch! (*Curo dweylaw.*)

OBADIAH : Mr. Cadeirydd, 'r wy-i'n cwnnu ar *boint of ordor*.

MALACHI (*yn hurt*) : Ah?

OBADIAH : 'R wy'n cwnnu ar *boint of ordor*.

Y PWYLLGOR

MALACHI : Obadiah, 'r ych-chi gwpod nag os dim llawar o Sisnag gen-i ; gobitho nag ych-chi ddim yn trio'n shimplo-i.

JACOB : Nagyw, nagyw, *point of ordor* bachan, *point of ordor*—wastod miwn pwyllgor.

MALACHI (*yn fawreddog*) : 'R wy-i wedi bod ar gannodd o bwyllgora—

MARI : O—h!

MALACHI : Wel, fe alla wêd ma nid dyma'r tro cynta i fi fod ar bwyllgor, ond chlywas i ariod son am *boint of ordor* miwn pwyllgor Cwmrag o'r blan. Ond cerwch ymlan i ni gal clwad beth sy gita chi.

OBADIAH : Dyna beth sy gen i : pwy isha i ni gal 'steddfod sy, pwy les ma'r hen 'steddfota bach ma'n nithir?

JACOB : 'Steddfod fach!

OBADIAH : Ia, 'steddfod fach. Ma'r 'steddfod yn mynd mas o'r ffashwn nawr. 'R wy-i 'n cynnyg yn bod ni yn cal drama.

MALACHI : Beth! Wara hen blai yn y capal!

MATTHEW : Ma gen-i welliant. 'R wy-i'n cynnyg yn bod ni'n cal consart.

JACOB : Consart! talu arian mawr i ferched hannar nôth i ganu yn nhy Dduw!

MALACHI : 'D os dim drama na chonsart i fod. *Fi* yw'r cadeirydd, a wetyn, tewch son. Heblaw hynny, ma cwrdd y brotyr wedi penderfynu cal 'steddfod. Os na chynaliwn ni 'steddfod nawr fe

Y PWYLLGOR

fydd aelota Salam yn meddwl 'u bod nhw wedi cal y gora arno-ni.

MARI (*yn annerch y gadair yn ffurfiol iawn*): Mr. Cadeirydd, *point of order*.

MALACHI: O, beth wyddoch chi am beth felny?

MARI: Ma gen-i gystal hawl a neb arall i wêd gair, nagos-a?

JACOB

MATTHEW } Os, ôs.

OBADIAH }

MARI: Wel, ma Jacob Evans wedi gwêd fod aelota Salam wedi mynd yn grôs i ni yn Pisgah.

JACOB: Pwy isha i chi 'mhela â'r hen grachan yna nawr sy? Fel gwetas-i, "Parhaed brawdgarwch."

MARI: Ia, ia, "Parhaed brawdgarwch," dim ond i chi gal ych ffordd.

MALACHI: Dyna i gyd sy gita-chi i wed?

MARI: Nace, dyma beth sy gen i: os ôs un wedi croesi'r nall, ni yn Pisgah sy wedi mynd yn grôs i aelota Salam.

Y BRODYR (*yn codi fel un*): Beth!

MARI (*yn hamddenol*): 'Dos dim isha i chi waeddi, 'dos dim tamad o'ch hofan chi arno-i, dim un o chi. Y gwir yn erbyn y byd, myn brain-i, Jacob.

(JACOB, MATTHEW ac OBADIAH *yn eistedd*.)

MALACHI (*yn annerch y tri gwr*): Dyna chi!

Y PWYLLGOR

arno-chi ma'r bai. Fe roias i rypudd teg i chi; fe wyddwn-i o'r gora y gnelsa Mari gawl o'r cwawl.

MARI: Otw; 'r wy-i'n mynd i nithir cawl, a ma raid i chi ifad-a, bob un o chi. Fe naiff les i chi lyncu tipyn o wirionadd. (*Yn bendant*) fuws dim son am 'steddfod yng nghapal Pisgah cyn tair wthnos i bora dydd Sul dwetha—all un o chi watu hynna? (*Neb yn yngan gair*.) Wel, ôdd capal Salam wedi penderfynu dros bump wthnos yn ol.

MATTHEW: O ble 'r ych-chi yn gallu gwêd 'na?

MARI: 'D yw-a ddim ond peth glwas-i â'm clusta 'm hunan, Matthew. On-i yn shop y Copare-tif, fish i nos Satwn dwetha, a fe glwas Ifan Twm Shon yn gwêd wrth Shân Ty-Cornal fod y brotyr yn eclws Salam yn meddwl cal 'steddfod dydd Calan nesa, a wetyn, o ble gallwch chi wêd 'u bod nhw wedi mynd yn grôs i chi?

JACOB: Falla 'u bod nhw wedi meddwl, ond ôn-nhw ddim wedi penderfynu dim. Os gita chi ddim hawl i wêd yn bod ni wei mynd yn grôs iddyn nhw.

MARI: 'D wy-i ddim am wed shwt beth. Falla ma wedi dicwdd yn lletwith ma petha, falla nace-fa hefyd (*gan edrych yn gul tuagat* JACOB). Ta pun, dyna'r gwirionadd.

MATTHEW: 'D yn-ni ariod wedi cal unrhyw gymwynas oddiwrth aelota Salam.

MALACHI: Nag-yn, a nawr, gan 'i bod hi wedi

Y PWYLLGOR

mynd yn waetha waetha, 'd wy-i ddim yn gweld fod isha i ni bito cal 'steddfod.

JACOB : Nagw inna chwaith.

MARI : O'r gora, a dyma finna yn roi rypudd i chi. Cerwch chi mlan â'r program, ond os gnewch chi ffwliad o chi 'ch hunen, arno-chi bydd y bai.

MATTHEW : 'R yn-ni yn fwy tebyg o nithir ffwliad o aelota Salam o beth dychrynlyd.

JACOB : Mlan â'r program, mlan â'r program.

MALACHI : Ia, ia ; dyma ni wedi bod bron hannar awr man hyn, a 'd yn-ni ddim tamad nes mlan, dim ond o'ch hachos chi, Mari. 'Dos dim isha mynd i'r shop arno-chi, ne rwpeth ?

MARI : Nagos, 'r wy-i'n itha cysurus man hyn. A fel gwetws Matthew, falla galla-i fod o help mawr i chi.

MALACHI : Wel, beth gymerwn ni gynta ? Y prif-ddarn ? Dewch Matthew, chi yw'r dechreuwr canu, beth yw'ch barn chi ?

OBADIAH : Mr. Cadeirydd, r'wy-i'n cwnnu lan ar *boint of ordor*.

MALACHI : Wel 'tawn i'n marw, rhyw gratur penstiff ych chi Obadiah! Beth sy'n bod nawr ?

OBADIAH : Pwy isha sy i ni roi'r lle blaena i'r hen ganu 'ma ?

MATTHEW (*yn codi yn gynhyrfus*) : Ho! 'r hen ganu, iefa ? 'R ych chi, Obadiah, wedi mynd yn

Y PWYLLGOR

getyn o slebyn oddiar enillsoch chi'r wobor 'na yn y *Penny Readings*.

OBADIAH (*gyda gwên ddirmyg*) : Jelosi, Matthew, jelosi. 'R wy-i'n cynnyg yn bod ni yn dechra gita'r ochr lenyddol.

MARI (*yn ddirydu*) : 'R wy inna yn eilio'r cynyciad.

MALACHI : Na, na, fe gymerwn y prif-ddarn gynta. Os yma ryw gynyciad ?

JACOB : 'D wy-i ddim llawar o gerddor, ond ma na ddernyn bach pert iawn a geira bendigetic iddo-fa y licswn i weld ar y program.

MALACHI : Beth yw hwnnw ?

JACOB : " Blodeuyn bach wyf fi mewn gardd."

MARI : Chi ithoch â'r gair oddiar flan y nhafod-i Jacob. 'R wy-i'n dwli 'n lân ar y pishin bach yna. Chi'n cofio côr Panteg yn cystadlu ?

JACOB : Cofio, wel am otw.

MARI : Fe geson-ni lawar i rali fach prynny, ondofa Jacob ? Deryn doniol och-chi'n arfadd bod yn grotyn.

JACOB : A thwlsan ofnatw och chitha, Mari.

MATTHEW : Ordor, ordor.

MARI : Der, der, fel ma'r hen fyd 'ma ; ôn-i'n meddwl dim am gysgod Malachi prynny. Chi'n cofio'r noswaith 'ny ithoch chi a fi——

Y PWYLLGOR

MALACHI: Ho'n wir, dyma hanas blasus i ddoti o mlan i, ontefa?

JACOB: Malachi bach, plant ôn-ni.

MARI (*yn chwervhin*): Plant ia, beth ôn-ni?—rhyw un ar bymtheg ôn-i, a 'd och-chitha, Jacob, ddim yn ddeunaw. A chi'n cofio'r tro arall 'ny, y noswaith lyb 'ny ar y ffordd 'n ol o 'steddfod Merthyr ôch chi a fi yn cysgoti o dan y dderwen?

JACOB (*yn mwynhau'r atgof*): A finna'n sychu'ch gwynab chi â nishad bocad!

OBADIAH: Mr. Cadeirydd, o'tyn-ni wedi dod yma heno i glwad hanes caru Jacob Evans?

MALACHI: Mari, chi ddechreuws yr hen ddwli-ma.

MARI: Ond plant ôn-ni, Malachi bach, plant ôn-ni. O gadewch i ni gal "Blodeuyn bach wyf fi mewn gardd." 'R wy-i'n dymuno cynnyg y deryn yna.

JACOB: 'R wy inna yn 'i eilio fa. Fe ddaw'r hen amsar'n ol mor felys.

MALACHI: Daw-a'n wir! Cymerwch chi bwyll Jacob. Llai o'r hen amsar melys 'na, os gwelwch chi'n dda. Matthew, chi yw'r dyn yn y dryswch 'ma. Dewch nawr.

(*Cyfyd MATTHEW yn bwyllog gan siarad yn fawreddog ac awdurdodol.*)

MATTHEW: Y peth cynta sy gita ni gofio pan yn dewish y prif-ddarn yw bod y byd-cerddorol yn

Y PWYLLGOR

symud ymlan. Pob parch i'r "Blodeuyn bach" a phetha o'r fath, ond os yn-ni am ddangos yn bod ni yn y *front* gita cherddoriaeth, raid i ni ddewish deryn *classical*.

OBADIAH (*yn wawdlyd*): Ha, ha!

MATTHEW: Os ych-chi, Obadiah, yn cretu y gallwch chi guddio'ch hanwybotath wrth wherthin, 'd ych-chi'n twyllo neb. Ma isha rwrpath mwy na *pitchfork*, cofiwch, i nithir cerddor.

(OBADIAH *yn codi yn wyllt.*)

MALACHI: Dyna glatchan yn 'i lle, Matthew. Ishteddwch lawr, Obadiah, a dysgwch wrando'n barchus pan bo dyn o wybotath yn gwêd gair.

JACOB: Shwt deryn yw deryn—beth och-chi yn 'i alw fa, Matthew?

MATTHEW: *Classical*, deryn *classical*.

JACOB: Ia, dyna fe, shwt beth yw-a?

OBADIAH: Dyna pam ôn-i'n cwnnu. Fe licswn-i glwad Mr. Bifan yn esbonio'r gair *classical*.

MATTHEW: Wel, nawr ta, i fi gal sponio. Ffordd galla-i ddangos i chi nawr, deryn *classical*—deryn—na, ddaw hi ddim felna chwaith. Deryn—miwn ffordd o wilia—deryn—chi'n gweld, ma-hi fel hyn yn gwmws os nag ych chi'n gyfarwdd iawn â cherddoriath, yn enwetig yr hen nodiant, 'd ôs dim shwt beth a'ch doti chi i ddeall beth yw *classical*.

OBADIAH (*yn fuddugoliaethus*): Ha, ha!

MARI : Ma na lawar ffordd o ladd ci heblaw i groci-fa, ond ôs a, Matthew.

JACOB : Allwch chi ddim roi engraifft i ni, pwy ddernyn ôdd ar ych meddwl chi ?

MATTHEW : Wel, dyna'r dernyn ôdd ar ym meddwl i, "*Worthy is the Lamb.*"

MALACHI : O, Sisnag, iefa ?

MATTHEW : Ia, Sisnag yw-a. Atnod o'r Scrythur yw'r geira.

MALACHI : Iefa'n wir. Shwt ma'r Ysgrythur yn canu yn Sisnag, Matthew ?

MATTHEW : Wel, ma'n raid cyfadda, 'dyw-hi ddim 'r un peth.

MALACHI : Dyna-fe lwchi, Cwmrag yw iaith crefydd, ontefa ?

JACOB : Ia, ia, —ia (*yn ddwys iawn*).

MARI : Wel, 'dwy inna ddim yn gyfarwydd iawn â cherddoriath (*gan droi at MATTHEW*), yn enwetig 'r hen nodiant, ond ma 'na ddernyn ar ym meddwl i, wn-i ddim os yw-a'n *glassical* ne bito, "Y don o flan y gwyntodd."

MALACHI (*yn nwyfus*) : Mari, chi'n cofio 'steddfod Aberdar!

MARI : Cofio, ddala-i mod-i!

MALACHI (*yn annerch JACOB a MATTHEW bob yn ail*) : Dyna le gwelais-i Mari gynta ; yn canu gita altos Côt y Cwm. 'R wy'n 'i gweld hi nawr, ffroc lês, shacad goch, het felan a phlufyn gwyrdd

—ôdd hi fel twmplan fach, ôdd! Fuas-i fawr o dro cyn dala 'i llycad hi, a fe ddat h r wpath drosto-i bob tamad, do ; "Dyna ngwraig i," myntwn-i "dyna ngwraig i."

MARI : Chi'n cofio'r dwarnod, Jacob ? Gita chi yr itho-i i'r 'steddfod.

MALACHI : Ia, ia, ond, ha! ha!—gita fi yr ithoch chi sha thre.

JACOB (*yn sychlyd*) : Mr. Cadeirydd, oty-ni wedi dod yma heno i glwad hanas caru Malachi Williams ?

MALACHI : Dyna chi, Mari, arnoch chi ma'r bai, chi ddechreuws, cofiwch—ond fe licswn i gal 'Y don o flan y gwyntodd ' yn 'stedfod Pisgah.

MARI : Licswn inna hefyd, fe ddaw'r hen amsar 'nol mor felys.

MALACHI : Daw-a, daw ; Matthew, ma'r "Don o flan y gwyntodd " yn *glassical*, on'd yw hi ?

JACOB : *Classical*, nag yw!

MALACHI : Ma-hi'n ddicon mwy *classical* na'r "Blotyn bach." Dewch nawr, Matthew, gwetwch ych barn yn onast.

MATTHEW (*yn ddifrifol*) : 'D os dim cerddoriath *glassical* i gal yn Gwmrag.

OBADIAH : Ho! dyna Gymro, dyna Gymro ; son am anwybotath!

MARI : *Classical* ne bito, 'r wy-i am gal y dernyn yna.

Y PWYLLGOR

MATTHEW : Ma'n ddrwg gen-i fynd yn ych herbyn chi, ond fel cerddor ma'n rhaid i fi fod yn gydwybotol. 'R wy-i'n cynnyg "*Worthy is the Lamb.*"

MALACHI : Os yma rywun yn eilio'r cynyciad ?

OBADIAH (*yn ffyrnig*) : Nagos!

MATTHEW : Mannars, Obadiah, mannars os gwelwch chi'n dda.

MALACHI : Ryw gynyciad arall ?

MATTHEW (*yn codi*) : Os nagw-i yn cal ym ffordd gita'r gerddoriath, dyma fi'n mynd sha thre.

OBADIAH : Clywch, clywch.

JACOB : Ishteddwch i lawr, Matthew, a pitwch a bod shwt fabi. 'R wy'-i'n cynnyg "*Blodeuyn bach wyf fi mewn gardd.*"

MALACHI : Os yma rywun yn ddicon dwl i eilio hwnna ?

MARI : Os ; 'r wy-i yn 'i eilio-fa.

MALACHI : Mari!

JACOB : 'Nawr, Mr. Cadeirydd, whara teg, lan âg ê, lan âg ê.

MALACHI (*rhwng ei ddannedd*) : Pob un sy dros y "*Blotyn bach,*" i ddod a'r hen amsar melys nol ?

(*JACOB a MARI yn codi dwylaw.*)

Pob un sy'n grôs ?

(*MALACHI, MATTHEW, ac OBADIAH yn codi dwylaw. Gwena MALACHI yn foddhaus iawn.*)

Y PWYLLGOR

Nawr ta, Jacob, ble 'r ych-chi nawr, eh ? (*Yn troi at MARI*). Dewch chi, merch-i!

MARI (*yn siriol*) : Mr. Cadeirydd, 'r wy-i'n dymuno cynnyg "*Y don o flan y gwyntodd.*"

MALACHI : Wel, 'tawn-i heb gyffro o'r fan !

MARI : Eiliwch-a, Malachi, eiliwch-a.

MALACHI (*yn sarrug*) : Eiliwch-a 'ch hunan.

OBADIAH : Fe eilia-i'r cynyciad.

MALACHI (*yn troi ato*) : O'n wir ; ym mhwy 'steddfod buoch *chi*, Obadiah ?

MARI : Lan âg ê, lan âg ê.

MALACHI (*yn anfoddlon*) : Pob un sy dros "*Y don o flan y gwyntodd*" ?

(*MARI ac OBADIAH yn codi dwylaw.*)

Pob un sy'n grôs ?

(*MATTHEW, JACOB a MALACHI yn erbyn y cynhygiad. MALACHI yn gwenu.*)

OBADIAH : O'n i'n eilio'r cynyciad er mwyn dangos y dryswch sy'n dilyn o gymeryd yr hen ganu 'ma gynta. 'R wy-i'n cretu y dylsa-ni fynd ymlan at yr ochor lenyddol.

(*MATTHEW ar ei draed.*)

MALACHI : Itha right. Ishteddwch i lawr, Matthew, fe ddewn ni'n ol at y canu eto.

(*MATTHEW yn eistedd dan rwoinach.*)

OBADIAH (*yn chwyddo*) : 'R wy-i'n cynnyg yn ffurfiol yn bod ni'n cymeryd at y farddoniath a'r ryddiath.

Y PWYLLGOR

MARI : 'R wy-i'n eilio'r cynyciad.

MALACHI : Barddoniath a pheth ?

OBADIAH : Barddoniath a ryddiath.

MALACHI (*yn hurt*) : Ryddiath ? (*Yn ddirifol*)
Fe fyddwn-ni'n cynnal y 'steddfod, Obadiah, miwn
ty cysegredig. (*Yn troi at JACOB*) Os gita chi ryw
syniad beth ma-fa'n gisho'i wêd ?

JACOB : Ryddiath, bachan, ryddiath—traethawd
ne lythyr caru.

MALACHI : O——h, wel, pam na wetiff y dyn
'i feddwl yn blân. O'r gora, fe ddechreuwn gita'r
llythyr caru. Faint o wobor gyncwn-ni ?

MARI : Otych-chi'n cofio'r llythyron caru o'ch
chi'n arfadd hela ato-i, Malachi ?

MATTHEW : Ordor, ordor.

MARI : Der, der, dyna garwr ôdd Malachi, a'r
llythyron ta, 'rwy-i'n cretu y gallaswn-i atrodd rai
o honyn nhw nawr air am air.

MALACHI (*yn bybyr*) : Ma ryw wendid ryfadd
wedi dod drosto chi yn ych henaint, nagos-a ?

MARI : Os falla'n wir, nawr wy-i yn 'i gal-a,
lwchi, fe'i cesoch chitha fa yn ifanc iawn.

JACOB : Dewch mlan, Malachi, ne man hyn y
byddwn-ni. Barddoniath a ryddiath.

OBADIAH : Cyn mynd ymlan, 'r wy-i am ddoti
un amod lawr, a dyma fe : yr oll o'r cyfansoddiata
miwn barddoniath a ryddiath i'w hysgrifennu yn ol
yr orgraff newydd.

Y PWYLLGOR

MATTHEW : Ma-fa'n wilia'n gwmws fe tsa fa
wedi llyncu dicshnari.

OBADIAH : Dyma gyfla bendigetic i ni ddangos
yn bod ni'n ddynon gwybotus a diwyllietic. Otw,
'r wy-i'n cynnyg fod yr oll o'r cyfansoddiata miwn
barddoniath a ryddiath i'w hysgrifennu yn ol yr
orgraff newydd.

MARI : Beth gynllwn yw orgraff ?

MATTHEW : Orgraff—O, ffordd smala o spelian
y Gwmrag.

MARI : Wel, ma'n raid gen-i ta orgraff ôdd gita
Malachi yn 'i lythyron caru.

MATTHEW : *Chair, chair.*

JACOB : Ordor, ordor.

MALACHI : Gadewch i bob un spelian fel ma-fa'n
dewish, yn enw'r bendith, spelian fel dysgws-a yn yr
Ysgol Sul, spelian 'r un ffordd a'r Beibl.

OBADIAH : 'Dyw orgraff y Beibl ddim hannar
right.

(JACOB, MATTHEW a MALACHI *yn neidio i fyny.*)

MALACHI (*gyda dweyster*) : Obadiah, ma'n flin
gen-i'ch clwad chi yn wilia felna, bachan ifanc
gobithol fel chi, sy â'i lycad ar y sêt fawr.

JACOB : Dyna fe, lwchi, 'dos dim daioni yn dod
oddarllan y *New Theology* 'na.

(OBADIAH *yn codi eto.*)

MALACHI (*yn dyner ond penderfynol*) : Nawr
Obadiah, ishteddwoch lawr, ne dyn a wyr beth

Y PWYLLGOR

wetwch chi nesa. Os triwch chi fod yn gymedrol, fe driwn ninna anghofio'r hyn wetsoch chi. Cofiwch chi, tsa aelota Pisgah yn dod i wpod am hyn, fe fysa hi yn galed iawn arnoch-chi.

(OBADIAH *yn parhau ar ei draed*; JACOB *yn codi*.)

JACOB : Er mwyn mynd mlan, 'r wy i'n dymuno cynnyg gwobor o gini am y Bryddest ora.

(OBADIAH *yn eistedd*.)

MATTHEW : Dyna ryw synnwyr nawr.

MALACHI : Ar bwy destun, Jacob ?

JACOB : "Noah yn mynd miwn i'r Arch."

MALACHI : Testun hyfryd.

MARI : Ma gen-i welliant at y testun yna.

MALACHI : Wel ?

MARI : "Noah yn dod mas o'r arch."

JACOB (*yn cynhyrfu*) : Gobitho, Mari, nag ych-chi ddim yn wherthin ar ym mhen i.

OBADIAH : Beth arall allwch-chi erfyn ? Os cewch chi'ch ffordd, fe newch y 'steddfod yn destun sport i'r byd. Dwli pen hewl, bob tamad.

JACOB : O, felna iefa ?

OBADIAH : Ia, Jacob, felna. 'Dych-chi ddim yn diall ysbryd yr ôs. Ys gwetws dyn enwog ych-ydig bach yn ol, fe gas Cymru afal ar 'i henad yn y ddeunawfad ganrif, fe ddath o hyd idd'i meddwl yn y bedwaradd ganrif ar bymtheg, a nawr yn yr ugeinfad ganrif ma-hi'n sylweddoli fod gita-hi gorff.

Y PWYLLGOR

Gadewch i ni ddewis testun fydd yn trafod petha agosa a mwya cynefin bywyd, testun *realistic*. Na, 'dychchi ddim yn diall ysbryd yr ôs.

MALACHI (*mewn anobaith*) : Os yma rywun yn diall Obadiah ?

MATTHEW : 'R wy-i'n cretu mod i yn 'i ddiall-a wath ma'r hen grotyn 'na sy gen i yn clepran petha tepyg amball waith. A nawr, er mwyn i ni ddangos yn bod ni yn ddynon gwybotus a diwyllietic, yn diall ysbryd yr ôs—er mwyn i ni gal testun *realistic*, ac er mwyn pleso Obadiah, 'rwy-i'n cynnyg gwobor o gini am yr awdl ora ar "Dwlc Mochyn."

(*Terfysg yn y pwyllgor*. OBADIAH *yn codi ar ei draed yn wyllt*.)

OBADIAH : Tsa chi'n wrboneddig, a thicyn o synnwyr cyffretin yn ych pen chi, fe ddialsach ar unwaith mai nid dyna on-i'n feddwl.

(MATTHEW *yn chwerthin yn wawdlyd*.)

MALACHI (*yn fygythiol*) : Nawr, nawr, Obadiah, ôs dim ffraeo i fod yn y ty 'ma. Ishteddych lawr.

JACOB : Ia, ia, "Parhaed brawdgarwch."

MARI : Wel, wel, a dyma shwt beth yw pwyllgor oddynon. Druan a chi!

MALACHI : Ag ar bwy ma'r bai. Fe fysan-ni'r dynon wedi nithir gwaith onibai am dano chi.

MARI : 'R un hen gân o hyd : y wraig hon a roddaist i mi.

Y PWYLLGOR

OBADIAH (*yn parhau ar ei draed*): Mr. Cadeirydd, 'r wy-i'n gofyn i Mr. Bifan i nithir *apology* i fi.

MALACHI: 'R wy-inna yn gofyn i chitha i ishta lawr. 'Rych chi lawn cynddrwg a Mari.

MATTHEW: Ma fa lawar gwath.

MALACHI (*yn troi at JACOB a MATTHEW*): Odd hawl gita ni i ddewis Mari yn aelod o'r pwyllgor 'ma?

(MARI *yn plethu ei breichiau ac yn gwenu.*)

JACOB }
MATTHEW } Odd, ôdd—ôdd.

MALACHI: O'r gora, os odd hawl gita ni idd 'i nithir hi'n aelod, ma hawl gita ni idd 'i diaeloti hi.

JACOB: Ma reswm yn 'yna hefyd.

MALACHI: A os ôs hawl gita ni i ddiaeloti Mari ma hawl gita ni i ddiaeloti Obadiah.

MATTHEW: Clywch, clywch.

MALACHI: 'D yw Mari a Obadiah yn ddim byd ond rhwystyr, a wetyn, ma'n well i ni idd 'i diaeloti nhw. Fyddwn ni'n tri ddim wincad yn partoi program: fe gewch chi, Matthew, ych ffordd gita'r gerddoriath, fe gaiff Jacob drefnu'r farddoniath a'r —a'r peth arall 'na, a fe ofala inna am yr amrywiath.

MARI: Pwyllgor o ddynon, wel, wel! A dyma beth sy'n dod o gal 'steddfod miwn *spite* yn erbyn capal arall.

Y PWYLLGOR

MATTHEW: Nid 'steddfod *spite* fydd hi. Ma gita ni gystlad hawl a nhw i gynnal 'steddfod ar ddydd Calan.

MARI: Fuoeh chi'n gofyn i aelota Salam i gynnal 'u 'steddfod ar rywddwarnod arall?

MALACHI: Y *ni* yn mynd i ofyn iddyn *nhw*! O'tyn *nhw* wedi dod i ofyn i *ni*?

JACOB: Mlan â'r program, mlan â'r program, er mwyn i ni gal 'i ddosparthu fa dydd Sul nesa; a fel gwetas-i, os bydd aelota Salam yn ddicon digwiddyl i gynnal 'steddfod wetyn, wel, wffit idd 'u crefydd nhw, weta-i.

MARI: Beth wetsa-chi nawr, tsa aelota Salam yn dod â'u program mas cyn dydd Sul?

MALACHI: Dim *fear*, ma nhw lawar rhy gysglyd.

MARI (*yn codi ac yn siarad yn araf a thawel*): Malachi, fe ddath papur yma i chi cyn i chi ddod nol o'r gwaith, ond fe anghofias 'i ddangos-a i chi. Ma 'r un man i chi gal i weld-a nawr.

(*Y gwyr yn edrych ar ei gilydd yn anesmwyth.*)
MARI *yn tynnu allan raglen fawr o ddror y ford ac yn ei dadlennu o flaen eu llygaid.* Gwelir yn eglur mai poster capel Salem ydyw yn cyhoeddi eisteddfod ar ddydd Calan.)

Y PWYLLGOR

CAPEL SALEM.

EISTEDDFOD FAWREDDOG

DYDD CALAN.

(Saif y gwyr yn syfrdan am ychydig gan syllu ar y rhaglen.)

MARI: Dyma fe, lwchi: ac os bydd aelota Pisgah yn ddicon digwyddil i gynnal 'steddfod nawr, wel,———

OBADIAH (*yn ofidus*): Jacob!

JACOB (*yn alarus*): Matthew!

MATTHEW (*yn wylofus*): Malachi!

MALACHI (*mewn dagrau*): Obadiah!

(Par MARI i ddal y papur i fyny o'u blaen gan wenu arnynt.)

LLEN.

**E.P.C. New List of Plays & Dramas
IN ENGLISH AND WELSH.**

THE BAKEHOUSE. (*J. O. Francis.*) 1/- net, post free 1/2.

CHANGE. (*J. O. Francis.*) Boards, 2/6, post free 2/9. Paper Covers, 2/- net, post free 2/3.

NOSON O FARRUG. (*R. G. Berry.*) 1/- net, post free 1/2.

Y PWYLLGOR. (*D. T. Davies.*) 1/- net, post free 1/2.

YR HEN DEILIWR. (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net, post free 1/2.

THE GREAT EXPERIMENT. (*Naunton Davies and Stanley Drewitt.*) 2/- net, post free, 2/3.

THOSE WHO WAIT. (*Ernest Cove.*) 1/- net, post free 1/2.

LLWYBRAU ANRHYDEDD. (*D. Derwenydd Morgan.*) 2/- net, post free 2/3.

RYBECA. (*Gwili.*) 2/- net, post free 2/3.

TEN SHORT PLAYS—Cyngor Plwy'—Trwbwl yn Wrecsam—Nith Dic Shon Dafydd—Ar Leave—Natur Plentyn—Byddin y Plant—Dyfodol Plentyn—Y Milwyr ar Brawf—Cosbi Dafydd—Yr Hen Siopwr. 2/- net, post free 2/3.

Licences for Public Performance to be obtained from
The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.